Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Nant Y Groes
# Heol Greenfield
# Bae Colwyn
# LL29 8ET

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Nant Y Groes

Lleolir Ysgol Nant y Groes ar gyrion tref glan môr Bae Colwyn yn Sir Conwy. Ym Medi 2015, unwyd Ysgol Babanod Glan y Môr ac Ysgol Pendorlan i greu'r ysgol. Er bod y pennaeth wedi arwain y ddwy ysgol ers Medi 2013, fe'i penodwyd i'w swydd fel pennaeth Ysgol Nant y Groes yn Ebrill 2015. Saesneg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Mae 315 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 31 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Addysgir disgyblion y cyfnod sylfaen mewn chwe dosbarth un oedran, tra addysgir disgyblion cyfnod allweddol 2 mewn chwe dosbarth cymysg eu hoedran. Mae dau ddosbarth adnodd i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr ysgol hefyd, un ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen a'r llall ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol dau sy'n derbyn cymorth iaith a lleferydd.

Mae 32% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn uwch na'r canran cenedlaethol, sef 19%. Mae'r ysgol wedi adnabod 40% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn sylweddol uwch na'r canran cenedlaethol, sef 21%. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o dan ofalaeth yr awdurdod. Mae'r ysgol yn nodi bod Saesneg yn iaith ychwanegol i ychydig iawn o'i disgyblion. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg gartref.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i ddatblygiad lles disgyblion. Mae hyn yn ganolog i holl waith yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn ac mae'n cael effaith bositif ar eu hagweddau tuag at eu dysgu. Mae ymyrraeth effeithiol iawn ar gyfer ychydig o ddisgyblion sydd â phresenoldeb isel wedi sicrhau bod presenoldeb bron bob un wedi gwella.

Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu sy'n cymell diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un yn dangos agwedd bositif tuag at eu dysgu. Mae bron pob disgybl yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch tuag at eraill.

Mae cynnal a chodi safonau yn greiddiol i waith yr ysgol. Yn gyffredinol, trwy ddefnyddio ystod o weithgareddau arfarnu addas, mae gan arweinwyr wybodaeth briodol am safonau a'r addysgu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi mynd i'r afael yn ddigon cyflym â'r anghysondebau yn yr ysgol nac wedi gweithredu'n ddigon buan i sicrhau bod y cyfnod sylfaen yn gadarn ar waith ymhob dosbarth.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Gwella prosesau monitro a gweithredu'n fwy effeithiol ar ganlyniadau er mwyn sicrhau cysondeb a gwelliant yn y ddarpariaeth a'r safonau

A2 Sicrhau bod egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi sefydlu'n gadarn

A3 Codi safonau Cymraeg a TGCh ar draws yr ysgol

A4 Cryfhau rôl y corff llywodraethol i weithredu'n fwy strategol yng ngwaith yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Ar fynediad i'r dosbarth meithrin, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau sylfaenol sydd islaw'r disgwylar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Maent yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn effeithiol ac yn cymhwyso eu medrau meddwl a datrys problemau yn achlysurol ar draws ystod o feysydd dysgu. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarthiadau prif lif ac yn y dosbarthiadau adnodd yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

Ar draws yr ysgol, mae medrau cyfathrebu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Maent yn gwrando'n astud ac yn trafod eu gwaith gyda brwdfrydedd, gan ddefnyddio cystrawen addas a geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio geirfa ehangach, er enghraifft wrth drafod a chymharu'r tywydd yn Affrica a Chymru. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb mewn darllen ac yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau. Mae disgyblion mwy abl yn trafod cynnwys storïau'n hyderus gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol o'r testun. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu syniadau'n synhwyrol mewn ystod eang o ffurfiau ysgrifenedig. Yn gyffredinol, maent yn atalnodi eu gwaith yn bwrpasol, ond mae hyn yn anghyson. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio ansoddeiriau yn effeithiol yn eu gwaith, er enghraifft wrth ymateb i stori 'Harry and the bucketful of Dinosaurs'. Fodd bynnag, mae gorddefnydd anaddas o daflenni gwaith parod yn cyfyngu'r disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu'n annibynnol ar draws y meysydd dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir. Ar frig yr ysgol, maent yn trafod eu gwaith yn ddeallus ac aeddfed. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd mae disgyblion yn trafod gwahanol strategaethau a ddefnyddiwyd i gyfrifo eu hatebion mewn gwaith mathemateg. Mae'r rhan fwyaf yn darllen yn gywir, gan ddangos ymwybyddiaeth briodol o'r testun a chan gyfeirio at rannau penodol i fynegi barn. Maent yn cywain gwybodaeth berthnasol o wahanol destunau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ymchwilio i ffeithiau am Tsieina. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau'n hyderus. Fodd bynnag, nid yw safon y gwaith ysgrifenedig yn gyson ar draws y dosbarthiadau. Mae strwythur brawddegau aneglur, a sillafu ffonetig, yn amharu ar ansawdd gwaith ychydig iawn o ddisgyblion. Caiff medrau llythrennedd disgyblion eu datblygu'n llwyddiannus ar draws ystod o bynciau'r cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu sgript ar gyfer sioe bypedau fel rhan o'u gwaith gwyddonol.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu medrau Cymraeg. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn dilyn cyfarwyddiadau syml. Maent yn defnyddio geirfa elfennol, er enghraifft wrth ymateb i'r gofrestr a dewis cinio. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn ateb cwestiynau syml yn gywir, ond mae diffyg geirfa a chystrawenau yn amharu ar hyder mwyafrif y disgyblion i gyfathrebu'n hyderus. . Mae llawer yn ysgrifennu disgrifiad syml o'u hunain gyda chymorth, gan ddefnyddio strwythur brawddegau sylfaenol. Mae dealltwriaeth y disgyblion o draddodiadau a diwylliant Cymru yn gyfyng.

Yn gyffredinol, mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn gadarn. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau mathemategol. Maent yn trin arian yn gywir, ac yn datblygu dealltwriaeth dda o werth lle a mesur. Fodd bynnag, nid ydynt yn eu defnyddio mewn gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif ac, erbyn Blwyddyn 6, maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd i safon dda mewn amrywiaeth o weithgareddau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gynllunio a gwneud barcud ac wrth gyfrifo cost ac elw gwerthu cacennau yn y ffair ysgol.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gyfyngedig. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadurol i atgyfnerthu eu medrau mathemateg. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn defnyddio offer technoleg i ffilmio a chofnodi eu gwaith, er enghraifft wrth berfformio stori 'Handa's Surprise'. Mae medrau TGCh llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu'n raddol. Maent yn defnyddio rhaglen prosesu geiriau yn briodol ac yn paratoi cyflwyniadau amlgyfrwng elfennol iawn.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac maent yn dangos diddordeb yn eu gweithgareddau. Maent yn cydweithio'n effeithiol â'u cyfoedion ac yn dangos parch at farn eraill. Er hyn, cyfyngedig yw dealltwriaeth lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol o ba mor dda y maent yn cyflawni a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn yr ethos cynhwysol a gofalgar sy'n bodoli ynddi. Mae'r rhan fwyaf yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn pryderu. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion tu mewn a thu allan i'r dosbarth yn dda. Mae bron pob un yn gwrtais tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch tuag at eraill yn y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol. Cefnogir hyn yn effeithiol gan y 'bydis buarth'. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n heini a bwyta ac yfed yn iach. Maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau o fewn a thu allan i oriau'r ysgol, er enghraifft y clybiau coginio a chwaraeon. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at eu dealltwriaeth o bwysigrwydd corff a meddwl iach.

Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n dda at nifer o elusennau, er enghraifft plant mewn angen a'r banc bwyd lleol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach. Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn frwdfrydig ac yn cyfrannu'n bwrpasol tuag at welliannau yn yr ysgol. Enghraifft o hyn yw'r ffordd maent wedi cymryd rhan flaengar wrth gynllunio buarth chwarae newydd i'r ysgol. Mae'r disgyblion yn lleisio'u barn am beth yr hoffent ei ddysgu ac yn cyfrannu'n llawn at themâu'r dosbarth.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella

Mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac angen gwella. Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu a thasgau diddorol sy'n cymell diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion. Mae'r dyddiau 'Wow' ar ddechrau thema newydd yn sbarduno dychymyg y disgyblion ac mae'r ymweliadau ar ddechrau'r uned o waith yn cyfoethogi dysgu yn llwyddiannus. Mae'r ysgol wrthi'n addasu ei chynlluniau gwaith ac mae elfennau o gwricwlwm creadigol yn dechrau treiddio i waith yr ysgol. Mae'r fframwaith llythrennedd a rhifedd wedi ei wreiddio'n dda yng nghynlluniau'r ysgol ac mae ystod eang o gyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio eu medrau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, er bod gan yr ysgol gynllun manwl ar gyfer datblygu medrau TGCh, dros gyfnod, nid ydynt yn gweithredu'r cynllun yn llawn.

Mae athrawon yn gosod amcanion dysgu priodol ac yn rhannu'r meini prawf llwyddiant yn gyson. Fodd bynnag, nid yw'r amcanion dysgu bob amser yn ddigon penodol ac nid ydynt yn cynnwys y disgyblion yn llawn yn y broses. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen ar waith ac mae tasgau pwrpasol yn yr ardaloedd sy'n cefnogi'r dysgu yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r tasgau bob amser yn ymateb yn llawn i anghenion y disgyblion. Lle mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o ofynion y cwricwlwm. Mae rhediad da i'r gwersi ac mae'r athrawon yn holi'n fedrus, sy'n galluogi'r disgyblion i ymhelaethu ac esbonio eu hatebion. Fodd bynnag, ar adegau, mae gor-arwain gan athrawon yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i arwain eu dysgu eu hunain. Mae cydweithio effeithiol rhwng athrawon a chymorthyddion, sy'n llwyddo i ddarparu cefnogaeth werthfawr i unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr. Mae hyn yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol mewn gwersi ac mewn gweithgareddau ymyrraeth.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn bwrpasol ac mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o'r dull marcio. Yn gyffredinol, mae'r sylwadau'r athrawon a'u cyfoedion yn adeiladol ac yn arwain y disgyblion i wella eu gwaith.

Mae athrawon sy'n addysgu yn y dosbarthiadau adnodd yn darparu addysg o safon dda. Maent yn cynllunio tasgau sy'n ymateb yn llawn i anghenion y disgyblion. Mae'r gweithgareddau'n symbylol yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad bron pob un disgybl. Mae'r athrawon yn asesu cynnydd y disgyblion yn rheolaidd ac yn defnyddio'r deilliannau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol yn gadarn. Er enghraifft, maent yn ymweld â thraeth Porth Eirias ac yn dysgu am hanes yr ifaciwis yn ymgartrefu ym Mae Colwyn. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd iddynt ddysgu am ddiwylliant ehangach Cymru. Mae'r staff yn defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol yn y gwersi trwy roi cyfarwyddiadau a chanmol ymdrechion disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn hyrwyddo defnydd rheolaidd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol yn llawn.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chyfeillgar lle mae gwerthoedd fel parch, cwrteisi a gofal yn cael eu hyrwyddo'n llwyddiannus iawn. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol systemau priodol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion sy'n mesur cyrhaeddiad yn erbyn eu targedau yn effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth o'r broses hon yn llwyddiannus er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd. Mae'r prosesau hefyd yn adnabod anghenion disgyblion yn fuan ac yn darparu ymyrraeth a chefnogaeth bwrpasol i unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae targedau mewn cynlluniau addysg unigol yn cael eu hadolygu yn rheolaidd gan yr athrawon dosbarth a gwelir cynnydd yng ngwaith llawer o'r disgyblion. Mae monitro darpariaeth y grwpiau ymyrraeth ac olrhain manwl rheolaidd yn sicrhau bod llawer o disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol.

Mae gan yr ysgol berthynas dda ag asiantaethau allanol fel gwasanaethau cymdeithasol, swyddog cynhwysiant, therapyddion iaith a'r heddlu sy'n cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae pob disgybl sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn cael eu cefnogi'n llwyddiannus mewn grwpiau maethu wythnosol sydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u hymagwedd at ddysgu. Mae'r ymyrraeth ar gyfer ychydig iawn o ddisgyblion sydd ag ymddygiad heriol wedi sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion hynny yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae ymyrraeth effeithiol ar gyfer ychydig o ddisgyblion sydd â phresenoldeb isel wedi sicrhau bod presenoldeb bron bob un ohonynt wedi gwella.

Mae perthynas dda yn bodoli rhwng y rhieni a'r ysgol ac maent yn rhannu gwybodaeth am waith y dosbarth yn rheolaidd. Enghraifft o hyn yw'r noson "Bwyd a Bingo Tseiniaidd". Mae hyn yn sicrhau bod y rhieni yn cymryd rôl weithredol yn addysg eu plentyn.

Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod gan y disgyblion ddealltwriaeth briodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae'r 'Wythnos Bwyta'n Iach' a chlwb coginio wythnosol yn atgyfnerthu hyn yn dda. Mae'r gwersi ymarfer corff ac ardaloedd chwarae newydd yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall manteision ymarfer corfforol.

Mae gweithdrefnau pontio effeithiol yn bodoli sy'n sicrhau bod disgybl yn trosglwyddo'n esmwyth i'r ysgol uwchradd leol. Mae trefniadau trosglwyddo mewnol yr ysgol yn llwyddiannus iawn. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd y cafodd disgyblion Blwyddyn 2 eu tywys i'r neuadd fel ifaciwis i gwrdd â'u rhieni newydd, sef disgyblion Blwyddyn 5, fel rhan o'r broses.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Trwy wasanaethau a chyd-addoli rheolaidd, gwersi addysg bersonol a chymdeithasol, mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r disgyblion o feysydd ysbrydol, moesol ac egwyddorion fel cydraddoldeb a goddefgarwch yn dda.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae gweledigaeth yr ysgol yn seiliedig ar ddatblygu lles y disgyblion a hyrwyddo safonau uchel. Er yr holl newidiadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gynnwys cyfuno dwy ysgol ac ymgartrefu mewn adeilad newydd, mae'r staff wedi llwyddo i gynnal ethos cynhwysol, lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Mae'r uwch dîm

rheoli newydd yn cydweithio'n effeithiol ac yn dechrau llywio cyfeiriad strategol yr ysgol. Mae'r arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd cwricwlwm pwrpasol a diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion, ond mae'n rhy fuan i fesur eu heffaith yn llawn ar y safonau. Mae'r cydlynwyr yn datblygu medrau rheoli da. Maent yn cyflwyno strategaethau addysgu newydd ac yn modelu arfer dda ar lawr y dosbarth yn llwyddiannus. Mae hyn wedi arwain at godi safonau ysgrifennu. Fodd bynnag, nid yw trefniadau monitro yr ysgol yn ddigon strwythuredig na miniog. Nid yw'r arweinwyr yn cymryd camau digon buan i fynd i'r afael â'r anghysondeb yn ansawdd y ddarpariaeth.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol. Maent yn derbyn gwybodaeth gyfredol am yr ysgol drwy adroddiadau manwl y pennaeth. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio ystod briodol o dystiolaeth addas i greu adroddiad hunanarfarnu, gan gynnwys dadansoddi data cyrhaeddiad, arsylwi gwersi a chraffu gwaith y disgyblion. Mae'r adroddiad yn rhoi darlun gonest a chytbwys o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella.

Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella. Mae nifer addas o flaenoriaethau i'w cyflawni o fewn amser realistig. Mae'r cynllun yn nodi cyfrifoldebau'r staff yn eglur a'r gweithgareddau wedi eu costio yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r meini prawf llwyddiant, na'r trefniadau monitro cynnydd, yn ddigon eglur. Mae hyn yn cyfyngu gallu'r arweinwyr i fesur effaith y cynllun ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyrhaeddiad y disgyblion. Nid yw egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n llawn ar draws y dosbarthiadau.

Mae'r cyfleoedd a ddarperir i staff yr ysgol ddatblygu'n broffesiynol yn gadarn. Mae'r cyfleoedd yn ymateb yn unol ag anghenion yr ysgol a'u hanghenion proffesiynol nhw. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ag ysgolion y dalgylch i rannu arfer dda a chyd-gynllunio, er enghraifft i ddatblygu medrau ysgrifennu'r disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon â chymwysterau addas i gyflwyno'r cwricwlwm yn briodol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'i hamgylchedd dan do, ac yn dechrau datblygu ardal awyr agored y cyfnod sylfaen ar ei safle newydd. Mae'r pennaeth yn rheoli'r cyllid yn ofalus ac yn sicrhau bod y gwariant yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r grant datblygu disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol ar gyfer codi safonau cyrhaeddiad a sicrhau lles grwpiau penodol o ddisgyblion.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  19/03/2018